OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1511

## Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

**Swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, ac yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau mewn Gorchymyn BILl, y swyddogaethau i'w harfer gan Fwrdd Iechyd Lleol o'r dyddiad perthnasol yw:

(a) swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(**1**) ac y cyfarwyddwyd Byrddau Iechyd Lleol blaenorol gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003(**2**) i'w harfer ar 1 Ebrill 2003; a

(b) swyddogaethau Gweinidogion Cymru, i'r graddau nad ydynt yn swyddogaethau o dan is-baragraff (a), fel a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) yn benodol yn cynnwys y cyfryw swyddogaethau ag a bennir yn yr Atodlen ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt.

(**1**) O.S. 2003/813 (Cy.98). Darparwyd gan y Gorchymyn hwn fod holl swyddogaethau Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, o 1 Ebrill 2003, wedi cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod pob Awdurdod Iechyd o'r fath wedi ei ddiddymu.

(**2**) Darparwyd gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20)) bod, o 1 Ebrill 2003, swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru, a gafodd eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag O.S. 2003/813 (Cy.98), wedi eu gwneud (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol mewn perthynas â swyddogaethau comisiynu arbenigol) yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol.